

Annwyl Cyfarwyddwr

## Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein harolygiad o wasanaethau i blant yn Ynys Môn yn ystod mis Hydref 2018 a gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad blynyddol ar 24 Ebrill 2019.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Carmarthen Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Picton Terrace  
Carmarthen  
SA31 3BT  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Adroddwyd mewn hunanwerthusiad diweddar o wasanaethau i oedolion hŷn gan Gyngor Sir Ynys Môn fod pobl yn cael mynediad at asesiadau amserol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, mynediad amserol at gymorth gofal cartref a gwasanaethau ailalluogi. Mae'r awdurdod lleol yn awgrymu bod hyn yn bosibl drwy ddatblygu model comisiynu newydd 'yn seiliedig ar ardaloedd' mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol. Gwnaethom nodi'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol; bydd angen i'r awdurdod lleol fod yn sicr nad yw lleihau llais a dewis i'r bobl ar yr ynys yn ganlyniad anfwriadol o gomisiynu yn seiliedig ar ardaloedd.

Er mwyn hyrwyddo eu llesiant, mae angen i blant allu meithrin cydberthnasau â gweithwyr cymdeithasol maent yn gallu ymddiried ynddynt. Yn dilyn canfyddiadau ein harolygiad diweddar, dylai'r rheolwyr sicrhau bod y nifer o weithwyr cymdeithasol y mae'n rhaid i bob plentyn ailadrodd ei stori iddynt mor isel â phosibl. Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol hefyd sicrhau bod pob rhyngweithiad â phlentyn yn cyfrif ac y gallant ddangos tystiolaeth o'u gwaith yn y ffeiliau achosion.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud ymdrechion cadarnhaol iawn i ddatblygu mentrau cymunedol dros nifer o flynyddoedd ac mae wedi ehangu'r gwaith hwn ar draws yr ynys gyda pheth llwyddiant.

- Pobl – llais a dewis

Gwelsom arweinyddiaeth gref a threfniadau llywodraethu cryf yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Roedd aelodau o'r awdurdod lleol yn gallu dangos eu cyfraniad at welliant y gwasanaethau plant a'u gwybodaeth am yr heriau allweddol sy'n wynebu'r cyngor a'r ffordd maent yn rhyngweithio er mwyn cael effaith ar blant a theuluoedd.

Mae trefniadau dros dro ar waith ar gyfer rôl statudol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn y newidiadau diweddar ymhlith uwch-arweinwyr. Bydd arweinwyr y cyngor am sicrhau nad yw'r newidiadau mewn arweinyddiaeth yn cael effaith negyddol ar y gwelliannau diweddar ym mherfformiad y gwasanaethau plant.

Mae uwch-swyddogion yn weladwy, ar gael ac yn ysgogi gwelliannau a gwelsom fod ymrwymiad a morâl y swyddogion yn dda. Gwelsom welliannau mewn goruchwyliaeth gan y rheolwyr ac atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel. Cawsom ein sicrhau gan uwch-swyddogion a nododd achosion lle'r oedd cyfleoedd i gefnogi plant wedi cael eu colli yn y gorffennol ac ymrwymiad cadarn a thystiolaeth uniongyrchol bod Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb yn rhagweithiol a thrylwyr i anghenion y plant hyn.

Rydym wedi trafod â'r awdurdod lleol bwysigrwydd cynnal gwelliannau mewn gwasanaethau plant. Byddwn yn cymryd camau dilynol i adolygu cynnydd yn ystod y flwyddyn nesaf i sicrhau bod y gwelliannau a wnaed hyd yn hyn wedi'u hymgorffori'n llawn. Byddwn yn canolbwyntio ar ddarllen ffeiliau achosion i sicrhau bod y 'llithriad' a welwyd

mewn blynyddoedd blaenorol wedi'i ddiddymu, bod lleisiau plant yn cael eu clywed a'u bod yn cael y gwasanaethau y mae ganddynt yr hawl iddynt.

Mae uwch-reolwyr yr awdurdod lleol yn ymwybodol bod ganddynt hwy hefyd fwy o waith i'w wneud i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau a bod eu lleisiau yn arwain at ddatblygiad cadarnhaol y gwasanaeth.

Cymraeg yw iaith gyntaf llawer o staff yr awdurdod lleol ar Ynys Môn. Mae llawer o'r swyddogion yn ddwyieithog ac adlewyrchir hyn yn Arolwg Dinasyddion Blynyddol 2017/2018 a gofnododd fod 92% o'r ymatebwyr a oedd yn derbyn gwasanaethau yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Nododd yr arolwg hefyd fod 91% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Yn unol ag awdurdodau lleol eraill, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi buddsoddi mewn cynlluniau gofal ychwanegol i gynyddu'r opsiynau tai i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt hefyd. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn awyddus i sicrhau y caiff gofal ychwanegol ei dargedu'n briodol at y rheini a all elwa fwyaf ar fyw yno a gwneud y defnydd gorau o wasanaethau gofal cartref. Mewn cyfnod o ostyngiadau mewn grantiau ar gyfer cynlluniau gofal ychwanegol, mae'r awdurdod lleol yn ymdrechu'n greadigol i ariannu cynllun ychwanegol ei hun mewn partneriaeth â chymdeithas tai.

Mae'r model a ddatblygwyd yn Garreglwyd - un o gartrefi gofal yr awdurdod lleol sy'n darparu gofal ychwanegol i unigolion â dementia, lle mae CPN yn gweithio'n agos iawn â staff y cartref gofal er mwyn cefnogi unrhyw ddirywiad mewn iechyd ac i osgoi symud defnyddwyr yn ddiangen - yn enghraifft gadarnhaol o atal anghenion rhag gwaethygu. Rydym yn disgwyl y bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod cymorth proffesiynol digonol ar gael ym mhob gwasanaeth a gomisiynir.

Mae gwasanaeth Night Owls yn darparu gofal a chymorth peripatetig dros nos gan alluogi unigolion ag anghenion cymhleth i aros gartref yn ystod y nos. Mae hwn yn gynllun unigryw nad yw ar gael yn gyffredinol ar draws rhanbarth gogledd Cymru. Mae'n enghraifft gadarnhaol arall o gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae Timau Adnoddau Cymunedol ar gamau cynnar yn eu datblygiad a byddant yn adeiladu ar y cydberthnasau gwaith cryf sydd eisoes yn bodoli rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ar lefel weithredol. Dylai hyn helpu gwasanaethau i symud tuag at integreiddio a chyflwyno gwasanaethau'n llyfn.

Mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol, gwnaed oriau gwaith y gwasanaethau cymunedol yn fwy hyblyg yn ystod 2016 a 2017 ac mae hyn wedi parhau hyd heddiw. Mae'r hyblygrwydd hwn yn sicrhau bod gwasanaeth saith niwrnod sylfaenol ar yr ynys i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ar benwythnosau ac i helpu i osgoi derbyn pobl i ysbytai'n ddiangen. Mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn ymwybodol bod angen mireinio'r gwasanaeth hwn ymhellach i gael y gorau o'r buddsoddiad.

Mae cael llety i blant ag anghenion cymhleth sydd angen derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn her y mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â hi fel mater corfforaethol. Mae cydweithwyr ym meysydd gofal cymdeithasol a thai yn gweithio'n agos gydag aelodau etholedig i gynnig cyfleoedd am lety byw ar Ynys Môn i blant sy'n gymwys i gael cymorth. Byddwn yn dilyn cynnydd y prosiect hwn yn ystod 2019/20.

### Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Ynghyd â'r rhaglen arolygu thematig, byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â thema'r arolygiadau a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Byddwn yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i gynnal adolygiad dilynol o'r hunanwerthusiad o waith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2019. Caiff adroddiadau cenedlaethol eu cyhoeddi ar ôl i'r rhaglen arolygu thematig a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel

rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Byddwn yn adolygu cynnydd cynlluniau gwella'r gwasanaethau plant ac yn monitro cyfleoedd i oedolion hŷn barhau i fod yn annibynnol. Byddwn yn cynnal dau weithgaredd â ffocws yn yr awdurdod lleol drwy gydol y flwyddyn.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn